# DINESYDD

## Mawrth

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1983

RHIF 94


# "MAE NHW'N PARATOI AT RYFEL"

Honnir fod rhannau ar gyfer bomiau thermo niwclear yn cael eu cynhyrchu yn Ffatri Gadoffer Frenhinol Caerdydd, ar Ffordd Caerffili, a bod gwastraff ymbelydrol a nwyon gwenwynig yn cael eu gollwng i'r awyr ac i'r cathffosydd gan y ffatri.

Mewn Cynhadledd i'r Wasg dydd Iau, Chwefror 24ain, datgelodd aelodau o fudiad y Menywod dros Fywyd ar y Ddaear wybodaeth (ar ffurf gohebiaeth breifat rhwng y Swyddfa Gymreig a'r Weinyddiaeth Amddiffyn) ynglŷn â'r defnyddiau peryglus a gedwir ac a ddefnyddir yn y ffatri hon. Y mae'r rhain yn cynnwys hyd at 50 tunnell o Wranium-238 hesb sy'n ddeunydd ymbelydrol, a'r metel gwenwynllyd Beryllium, sydd yn achosi'r clefyd berylliosis (sydd yn debyg ar rai agweddau i asbestiosis neu silicosis).

Defnyddir Beryllium, sydd yn fetel ysgafn dros ben ac sydd yn adlewyrchu niwtronau i wneud casys allanol bomiau thermo-niwclear. Gosodir haenau o Warium hesb yn flanced o gwmpas prif gnewyllyn y bom i beri trydydd adwaith o ymhollti ar ôl y broses ddechreuol o ymhollti-ymdoddi a geir mewn ffrwydrad thermo-niwclear. Dyma'r bom "fission-fusion-fission' thermoniwcliar.

Pwrpas y llythyr yw awdurdodi'r ffatri i gael gwared a gwastraff ymbelydrol hylif a solet a llwch neu fwg ymbelydrol. Caniateir i'r ffatri i waredu'r gwastraff hwn drwy ei simneau i'r awyr, ar ffurf hylif i mewn i garthffosydd y ddinas, a chludir gwastraff solet ymaith mewn loriau ar hyd priffyrdd cyhoeddus. Meddai Liz Forder, aelod o gangen Caerdydd o Menywod dros Fywyd ar y Ddaear:

"Mae'r gwastraff yn cynnwys Beryllium wedi ei lygru ag ymbelydredd yn ogystal ag ymlifiad o nwyon o ddwy simne a gwastraff hylif ymbelydrol i mewn i'r carthffosydd. Metel ysgafn yw Beryllium sydd yn rhoi ymaith nwy sydd 1,000 gwaith yn fwy gwenwynllyd na nwy clorin. Gall hyd yn oed cyfnod byr ym mhresenoldeb Beryllium arwain at glefyd o'r enw Berylliosis na ellir mo'i wella, ac sydd yn fynych yn farwol. Gall gwastraff ymbelydrol hylif ollwng o hen bibau carthffosiaeth neu gydgrynhoi lle byddant yn ymarllwys i'r môr, a halogi'r gadwyn fwyd felly. Nid oes cytundeb ymhlith gwyddonwyr ar beth yw lefel "ddiogel" o ymbelydredd. Bydd y 'fall-out' o'r simneau yn lleol gan fod Wranium yn ddeunydd trwm".

A Liz ymlaen i ddweud, "Yr ydym yn byw ym mhrif-ddinas y Gymru Ddi-niwclear ac eto yn goddef ffatri fomiau yng nghanol ardal boblog. Yr ydym yn gwrth-wynebu'r ras arfau niwclear a'r ffordd mae'r rheini sy'n cymryd rhan ynddi yn ein hecsploetio ac yn gwyrdroi'r ffeithiau. Mae gwell ffyrdd o wario arian ein gwlad nag ar arfau dinistr torfol".

Mae cwestiynau eisoes wedi eu gofyn yn y Senedd ynglŷn â ffatri Caerdydd, ac y mae nifer o gynghorwyr De Morgannwg wedi galw am ganiatad i fynd i mewn i'r ffatri i weld beth yn union sy'n digwydd yno. Yn y cyfamser, bydd Menywod Caerdydd yn dal i ymgyrchu - nid am gau'r ffatri, gan y byddai hynny'n peri i bobl golli eu swyddi - ond am newid ei defnydd, i ddibenion heddychol yn hytrach na rhai militaraidd.

# UN GAN SYDD AR ÔL




GWEL TUD.9

# GOLYGYDDOL

Y mis hwn mae'r DINESYDD, tad yr holl bapurau bro, yn ddeng mlwydd oed. (Epiliodd yn ifanc ac yn helaeth!). Mae'n bleser gan y rhai sydd wrth y llyw heddiw dalu teyrnged i weledigaeth y rhai a'i sefydlodd.

Arwyddocaol, efallai, yw'r ffaith taw hwn yw mis dathlu Gŵyl Ddewi yn ogystal. Un o wyrthiau'r nawddsant oedd gwneud i'r tir godi tan ei draed. Gosododd sefydlwyr y DINESYDD un papur bach i fod o fudd i fro fechan a thyfodd yn fynydd o bapurau a ddosberthir ledled y wlad.

Tybed nad yw'n arwyddocaol hefyd inni gythruddo amryw o'n darllenwyr a ninnau ar drothwy ein penblwydd. (Nid newyddbeth, cofier, yw i ddarllenwyr gael eu pigo gan y pethau bychain a welsant ac a glywsant yn y papur hwn).

Deallwn i nifer ohonoch weld chwith ar yr awgrym direidus ar flaen ein rhifyn diwethaf y dylai CCCC ac Eglwys y Crwys ddod ynghyd i ddatrys eu gwahanol broblemau parthed adeiladau. Ein bwriad gyda'r gwamalrwydd diniwed (ac amlwg ddifalais) hwn oedd dod â gwên i wynebau ein darllenwyr. Mae'n ymddangos i rai ein cymryd o ddifrif. Os felly, fe fethom.

Cydymdeimlwyd yn ddidwyll â gofid Eglwys y Crwys yn y gorffennol. Yn yr un modd, cefnogasom amcanion CCCC er ei sefydlu. Pan agorir y Clwb a phan adnewyddir capel y Crwys (neu pan ymgartrefa'r eglwys mewn mangre newydd) gobeithia'r DINESYDD gael bod yno i gydlawenhau yn y dathlu.

Tan hynny, ni fyddwn yn esgymuno tynnu coes o dudalennau'r papur. Yn y cyfamser, iechyd da i'r ddau achos. A pharhaed pawb i ddarllen.


Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

*Buddsoddiadau Yswiriant Bywyd Pensiynau*


# Y CALENDR

Mawrth

8 Neuadd Dewi Sant Caerdydd, 7 p.m.; NOSON gan Ysgolion Cynradd ac Uwchradd De Morgannwg o dan nawdd Pwyllgor Cerdd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 1985.

10 Clwb Cinio Merched Caerdydd, Gwesty'r Thatchers, Llanishen, 7.30 p.m. Cissian Rees yn sôn am goluro.

11 DATGANIAD AR YR ORGAN gan yr organydd enwog PETER HURFORD yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd, 7.30 p.m. Tocynnau: £2; Pensiynwyr a myfyrwyr £1.50.

11 Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd, yn Festri Bethel, Penlline Rd., am 7.30, DATHLU GŴYL DDEWI, Gŵr Gwadd: Dr. Elwyn Hughes.

16 TWMPATH DAWNS gyda Chwmni Dawns Canolfan Caerdydd. Galwr : Rhodri Jones, Y CLWB TRYDAN, 8 o'r gloch. Er budd Cronfa'r Dinesydd.

17–19 Theatr y Sherman, Wil ac Elin a Ni. Theatr Caricature yn gwahodd plant dan wyth oed i ddod i gael awr a hanner o hwyl a sbort gyda'r pypedau. Gwener, 10.30 a.m.; Sadwrn, 11.00 a.m.

22–23 Theatr y Sherman, Theatr Cymru yn cyflwyno TY AR Y TYWOD gan Gwenlyn Parry, 7.30 p.m.

27 Theatr y Sherman, TAITH MACSEN 1983 gyda DAFYDD IWAN ac AR LOG, 4 p.m. ac 8 p.m. Tocynnau : £3.50 a £3.00.

Ebrill

22 Cyfarfod Cyhoeddus Y DINESYDD, Festri Dewi Sant, 7.30 p.m.

Mehefin

25 Ffair Haf Glantaf

# YN EISIAU


**************************

YN EISIAU

AT DYMOR YR HAF

Merch neu Wraig i ofalu am efeilliaid, 3½ oed o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Am fwy o fanylion, ffoniwch Caerdydd 486702.

**************************

**************************

YN EISIAU

gan deulu Cymraeg sy'n byw mewn gwlad dramor :

TŶ NEU FFLAT AR OSOD

am fisoedd Gorffennaf ac Awst.

Ffoniwch: Caerdydd 732877

**************************

**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD 561788**

CARAFAN SEFYDLOG FOETHUS

– 4/6 gwely, ar safle pedair seren ger St. Tropez, De Ffrainc. Telerau da. Dim ond misoedd Ebrill, Mai, a Medi ar ôl. Ffoniwch (0656) 58773.



**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD 561788**



PRIFYSGOL CYMRU

CANOLFAN DYSGU CYMRAEG I OEDOLION

CWRS HYFFORDDI ATHRAWON

(rai profiadol a dibrofiad)

Pob nos Fawrth, 26 Ebrill – 21 Mehefin

4.30 – 5.30 p.m.

Manylion o 6 Gwennyth St., Cathays. Ffôn: 390980


Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn EBRILL at Mrs. N. Couch, 2, Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd (753625) erbyn 18 Mawrth, 1983

# DINESYDD Y PLANT



Beth yw'r ffordd gyflymaf i'r ysbyty?
Sefyll yng nghanol y ffordd.

. . . . . .

Meddyg: Dwi ddim wedi eich gweld ers amser,
Mrs Jones: Na, rwyf wedi bod yn sal.

. . . . . .

"Doctor, mae fy mab wedi llyncu beiro! Be wna'i?"
"Wel, rhoi pensel iddo."

. . . . . .

Mam: Ydy'r athrawes yn dy hoffi di Huw?
Huw: Ydy, rwy'n siwr, mae hi'n rhoi cusannau ar fy llyfr bob dydd.

. . . . . .

Pam aeth y fuwch i Swyddfa'r Heddlu?
Am ei bod hi wedi colli ei phwrs.

. . . . . .


Lliwiwch y darlun hwn




PA FYNACH SY'N WAHANOL I'R LLEILL ?



## RHYS AC ELIN



# GWEN BOIS Y WENALLT

Darganfuwyd un o ddoniau dirgel gwŷr ardal Rhiwbeina mewn cyfarfod yn nhafarn y Pantmawr y nos o'r blaen. Mae'n amlwg fod yn eu plith fwy nag un cartwnydd o fri.

Yr achlysur oedd cyfarfod misol Cymry'r Wenallt a'r gŵr gwadd am y noson oedd Cen Williams, cartwnydd 'Y Dinesydd' a'r 'Faner'. Ar ôl ei araith heriodd Cen aelodau'r Gymdeithas i lunio cartwnau ar un o ddau o destunau llosg yr wythnos - streic y gweithwyr dŵr neu herwgydiad y ceffyl rasio, 'Shergar', o'i stabl yn yr Iwerddon.

Efallai nad oes gan Giles, Scarfe, Hywel Harries na Cen Williams lawer i ofni oddi wrth arlunwyr Rhiwbeina, ond, fel y gwelwch, mae gan gartwnwyr y Pantmawr dipyn o grefft a llawer o hiwmor.

Bydd aelodau'r Gymdeithas lwyddiannus hon yn cael mwy o hwyl arni yn eu cyfarfod nesa' ar nos Wener, Mawrth 11eg, pan fydd Esme Lewis yn eu hannerch.




"ON IN MEDDWL BOD DYFED WEDI LLYNCU SHIRGAR ER 1974!"

IOLO WALTERS




'WATER POLO'

# YR AGORIAD

Cafwyd cwrs penwythnos iawn yn y Dyffryn ym mis Chwefror. Roedd yna lawer o ddysgwyr o Dde Morgannwg a llawer ohonynt yn mentro i ddefnyddio'r Gymraeg ddysgwyd ganddynt mewn amrywiol ddosbarthiadau nos yn y gaeaf. Diddorol yw sylwi fod yna lawer mwy o ddysgwyr o Loegr yn mynychu'r cyrsiau penwythnos yna bellach. Ar y cwrs hwn roedd yna bedwar o ddysgwyr brwd iawn o Sheffield - dau o Bury St. Edmunds a phedwar o Lundain. Bydd y penwythnos nesaf i Oedolion sy'n dysgu Cymraeg yn y Dyffryn y penwythnos cyntaf yng Nghorffennaf - dewch i gyd.

CYRSIAU NANTGWYTHEYRN

Mae rhaglen cyrsiau haf bellach ar gael. Bydd yna amrywiol gyrsiau drwy'r haf - cyrsiau penwythnos a chyrsiau wythnos llawn. Os ydych yn meddwl ar hyn o bryd - beth am dreulio wythnos yn dysgu Cymraeg ar lan y môr yn Llŷn. Rwy'n diŵr y caech ddysg a gwyliau ar un pryd. Cofiwch y bydd yna nifer o gyrsiau ar gyfer teuluoedd a'r rhai hyn yn rhyfeddol o rhad.

Ysgrifennwch am y rhaglen ar unwaith at:
Y Trefnydd Iaith,
Canolfan Iaith Nant Gwytheyrn,
Llithfaen, Pwllheli,
Gwynedd.

EISTEDDFOD Y DYSGWYR

Cofiwch am yr Eisteddfod eleni yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy, nos Fercher, 30ain o Fawrth. Mae digon o gystadleuthau ar gyfer pawb.

Mae hon yn noson fawr i holl ddysgwyr y Deddwyrain - Peidiwch â'i cholli - dewch a'ch ffrindiau gyda chi.

Dymuna Pwyllgor Rheoli y DINESYDD ddiolch yn gynnes iawn i'r CWMNI DAWNS WERIN am eu parodrwydd i gynnal noson o TWMPATH DAWNS er budd Cronfa'r Dinesydd.

Cynhelir y TWMPATH DAWNS yn y CLWB TRYDAN (ger Canolfan Deledu HTV), Pontcanna, NOS FERCHER, MAWRTH 16eg, am 8 o'r gloch.

Y Galwr, fel arfer, fydd Rhodri Jones, ac fe fydd cerddorion y Cwmni yno i'w gefnogi gyda cherddoriaeth byw a bywiog. Fe fydd y bar ar agor tan 11.30 p.m.

Mae'r tocynnau yn £1 yr un ac ar gael wrth y drws cyn 9.30 p.m. neu drwy gysylltu ag Andrew Bartholomew ar Caerdydd 565101 neu Mrs. Gill James ar Caerdydd 563989.

Gobeithio y bydd y Twmpath yn ffordd addas i ddathlu dengmlwyddiant y DINESYDD.



PELDROEDIO

Y tîm i chwarae dydd Sadwrn nesaf ym Mhontcanna yn erbyn Tresimwn fydd y canlynol: Al Bops yn y gôl, John Roberts, Cen Cartŵn, Gareth Huws, Wil, Ian ap Dewi, Twrog, Rhisart (Mêt) Llwyd Jones, Moi Parri, Geraint Huws, Rhodri Gwynn Jones. Na, peidiwch meddwl fy mod yn drysu, ond dyna fel y byddai'r tîm yn ymddangos ar ddarn o bapur wedi ei osod ar fur y New Ely ddeng mlynedd yn ôl. Tri yn unig o'r tîm sydd yn dal i chwarae - mae'r gweddill wedi ymddeol yn wylaidd o'r gêm neu wedi symud yn ôl i'r Fro Gymraeg i borfeydd brasach. Diddorol sylwi hefyd mai gogleddwyr oedd y mwyafrif o'r tîm y pryd hynny, ond o ystyried,gogleddwyr ydi'r rhai gorau am chwarae peldroed ynte! Mae peldroedwyr sydd yn rhoi gwasanaeth teg a theilwng i'w clybiau dros gyfnod maith o amser yn arfer cael gêm 'testimonial' i gynnig gwerthfawrogiad am y fath ffyddloneb. Credaf mai'r dysteb orau y gellid ei dalu i ddau o'r tri sydd ar ôl fyddai cael cadair olwyn ar y cae yn barod i'w cario'n ôl i'r stafell newid wedi diwedd y gêm. Na i ddim enwi pa ddau yr ydwi'n sôn amdanynt!

Yn ôl yn y presennol yn 1983, mae'r gêm yn parhau.

Ar Ionawr 22ain, trydedd rownd cwpan Ninian Stuart yn erbyn Roath Labour. Roedd pethau yn argoeli'n dda ar y prynhawn hwn a chyda deng munud yn weddill, roedd y sgôr yn un i ddim o blaid y Cymric. Yn anffodus, llwyddwyd i lefelu'r sgôr cyn diwedd y 90 munud a gorfu chwarae hanner awr o amser ychwanegol. Ar ddiwedd y gêm, safai'r sgôr yn 3 i 2 i'r gwrthwynebwyr, Elwyn Dafid ac Alun Meirion yn sgorio'r goliau, a phawb wedi llwyr ymlâdd erbyn y chwiban olaf.

Chwalwyd unrhyw obaith o ennill medalau y tymor hwn mewn gêm gwpan arall ar Chwefror 12fed yn erbyn Cwrt y Vil. Un ar y blaen o fewn y chwarter awr cyntaf â'r chwarae'n dda bryd hynny, ond yna dyna fynd ar chwâl a Dewi'r Capten a'r golgeidwad yn gorfod cyrchu'r bel o'r rhwyd dair gwaith cyn i'r hanner cyntaf ddod i ben. Yn ffodus dyna'r sgôr terfynnol hefyd ond bler iawn fu'r chwarae ac anodd credu bod modd chwarae'n salach nag a wnaethpwyd. Rhodri sgoriodd yr unig gôl.

Rhwng y ddwy gêm gwpan, chwaraewyd dwy gêm gynghrair. Ar Ionawr 29ain yn erbyn yr hen elynion o Dongwynlais, cafwyd gêm gyfartal, un yr un, a'r sgôr yn cyfateb i'r gêm a chwaraewyd yn gynharach yn y tymor. Y Ton yn sgorio yn yr hanner cyntaf, ac yna yn hwyr yn yr ail hanner, gwelwyd corff Ken Passmore yn hyrddio trwy'r gwagle i benio gôl fendigedig i gongl bellaf y rhwyd.

Ar Chwefror y 5ed, tra roedd tîm rygbi Cymru yn herio'r Saeson ar y Maes Cenedlaethol, cafwyd gêm llawer mwy cyffrous ar faes Pontcanna. Y gwrthwynebwyr oedd Tresimwn, a chydag un fuddugoliaeth eisioes yn eu poced y tymor hwn, roedd eu gobeithion yn uchel am ddau bwynt ychwanegol at eu cyfanswm. Wedi rhyw chwarter awr o'r ail hanner, gellid yn hawdd fod wedi gwireddu eu breuddwydion pan sgoriwyd eu pedwaredd gôl, (y gyntaf ohonynt trwy gymorth Gareth Huws - y fo yn benderfynol o gael ei enw ar y daflen sgorio hyd yn oed os y golygai benio'r bel heibio ei golgeidwad ei hun). Yna dyna ryferthwy, a chwrigwgan o chwarae o draed y gwyrddion yn dod a'r sgôr i 4 i 3; y cynffonnau i fyny yn ymladd a hyrddio a chystadlu am bob pel. Eiliad wan wedyn a Thresimwn yn sgorio eto ond yn syth o'r ail ddechrau, gôl eto i'r Cymric a'r sgôr yn 5 i 4 i'r gwrthwynebwyr. Gyda'r dyfarnwr yn cael cilwg ar ei oriawr i gyfri'r eiliadau cyn diwedd y gêm, dyma groesiad o'r chwith dros ben y cefnwr canol i droed Martin Hopwood, a saethodd yr asgellwr chwimwth hwn y bel i'r rhwyd i sicrhau'r un pwynt i'r Cymric! Prin fod amser pellach i osod y bel ar y smotyn gwyn i ail gychwyn pan chwthwyd yr olaf bib. Gêm i'w anghofio, ia, ond gêm i'w mwynhau hefyd, a gwên fawr ar wyneb pawb o'r ddau dîm, a'r dyfarnwr,

ar y diwedd. Gweddill y sgorwyr oedd Rheon, Ken a Rhodri(2).

Mis llawn i'r Cymric fu'r mis diwethaf, a 15 pwynt allan o 15 gêm sydd ar y bwrdd erbyn hyn.

Ond, arhoswch, mae 'na chwa o awel iach yn dod o du'r Aelwyd, ac heblaw am y gêm gwpan yn erbyn Cardiff Express Lifts (rownd gyntaf Cwpan y Gyngrhair) pryd y collwyd o 3 gôl i ddim ar Ionawr 22ain, cafwyd tair buddugoliaeth yn olynnol. Trechwyd Cathays Conservatives o 2-1 gyda Pwt ac Elfyn yn sicrhau'r pwyntiau tyngedfennol. Yna yr un fu tynged Wells United, 2 gôl i un gyda Richard Parsons a Tony yn sgorio. Yna, ymlaen at Chwefror 12fed, a buddugoliaeth gwmpaus o 3 gôl i 2 yn erbyn Whitchurch Hospital; Dafydd 2 gôl ac Elfyn yn selio'r fuddugoliaeth. Mae nifer o chwaraewyr newydd, addawol, wedi dod i'r wyneb erbyn hyn ac mae'n galondid gweld y colegau yn cael eu cynrychioli unwaith yn rhagor yn rhengoedd y Clwb. Mae hefyd yn arwydd o ffyddlondeb y gweddill o'r chwaraewyr sydd wedi cadw ffydd trwy'r cyfnod gwan ac sydd erbyn hyn yn gweld llwyddiant yn dod i'w rhan. Pwy a ŵyr na fydd peth cyfnewid rhwng y tîm cyntaf a'r ail dîm cyn diwedd y tymor, ac y gwelir o'r herwydd safon chwarae'r tîm cyntaf yn codi'n sylweddol. Cofiwch am yr ymarfer : Ysgol Glantaf, nos Fawrth, 6 - 7.30.



# LLYTHYRAU

Annwyl Syr,

Mewn Cwrdd Eglwys a gynhaliwyd ar 30 Ionawr, 1983, penderfynodd aelodau Eglwys Annibynnol Ebeneser Caerdydd ein bod fel eglwys yn:

1. gwrthwynebu unrhyw a phob math o arfau niwcliar.

2. gwrthwynebu lleoli taflegrau niwcliar Cruise o eiddo America ar dir Ynysoedd Prydain.

3. ymaelodi a'r ymgyrch Ddiarfogi Niwcliar yng Nghymru.

Byddwn yn ddiolchgar iawn am bob cyhoeddusrwydd i'r hyn a benderfynwyd a chredwn y bydd y penderfyniad o ddiddordeb i lawer o'ch darllenwyr. Annogwn eglwysi eraill o bob enwad i ymuno â ni yn y mater hwn a sefyll dros heddwch yn enw'r Arglwydd Iesu Grist.

Llawer o ddiolch ichwi ymlaen llaw am eich cymorth yn y mater hwn.

Yn gywir iawn,

Leslie Jones,
Ysgrifennydd.


CYFARFOD

BLYNYDDOL

Y

DINESYDD

NOS WENER,
EBRILL 22

FESTRI
EGLWYS DEWI SANT
7.30p.m.


Annwyl Olygydd,

Yn sgil llwyddiant ysgubol unig Ysgol Gymraeg ein prifddinas, sefydlwyd pedair ysgol gynradd newydd ym Medi 1981. I ddathlu'r achlysur, cyhoeddwyd record a chaset, (Ar Daf yr Iaith a Dyfodd) o ddoniau a lleisiau'r gorffennol. Ymhlith y rhai a gyfrannodd ar lafar a chân mae Siân Hopkins, Iwan Guy, Geraint Jarman, Eirlys Britton, Huw Jones, ynghyd â disgyblion o ysgolion Rhydfelen, Llanhari a Glantaf. Roedd cyn-Brifathrawes yr ysgol, y ddiweddar annwyl Mrs. Enid Jones Davies, wrth ei bodd wrth gynorthwyo â'r trefniadau i baratoi'r record ac mae'n sicr y bydd amryw o rieni, cyn-ddisgyblion ac athrawon yn falch o'r cyfle i brynu'r record i'w hatgoffa am eu cyfnod yn yr ysgol.

Teimlodd Pwyllgor Cyn-ddisgyblion Ysgol Bryntaf y dylid yn awr roi cyfle i bawb sydd â diddordeb i archebu'r record trwy ddanfon £3.90 (sieciau yn daladwy i Pwyllgor Cyn-ddisgyblion Ysgol Bryntaf yn nodi caset ai record) at y cyfeiriad isod.

Yn gywir iawn,
ar ran Pwyllgor Cyn-ddisgyblion Ysgol Bryntaf.
SIAN THOMAS,
Ffynnon Wen,
105 Heol Pantmawr,
Rhiwbeina,
CAERDYDD.

## HEF A IEU

Ar yr 27ain o Chwefror fe ddathlodd Hef a Ieu eu penblwydd cyntaf. Nôl ar y dyddiad uchod y llynedd fe ddaru'r ddeuawd digri berfformio am y tro cyntaf gyda'i gilydd yng Ngwesty'r Central mewn noson a drefnwyd gan CCCC. Roedd y noson hynny yn noson fythgofiadwy i Hef a Ieu.

Ers y noson hynny fe fu'r ddau'n perfformio dros Dde Cymru, gan gynnwys pnawn bendigedig ym Mhabell Jacs yn Joio yn Eisteddfod Abertawe.

Er taw dim ond blwyddyn yn union mae Hef a Ieu wedi bod yn perfformio, maent wedi ymddangos ar 'Sêr', 'Sosban', 'Rhaglen Hywel Gwynfryn' a 'Clwb S4C'.

Mae'r ddau - sy'n byw yng Nghaerdydd ar hyn o bryd - yn gobeithio gwneud llawer mwy o waith teledu/radio yn y blynyddoedd nesaf, ac hefyd maent yn gobeithio recordio record hir cyn diwedd y flwyddyn. Ond er hyn i gyd mae'r ddau yn benderfynnol o berfformio'n fyw ymhob cwr o'r wlad.

Mi fydd Hef a Ieu yn ymddangos mewn cyngerdd yn Theatr y Coliseum, Aberdâr, ar Fai'r 7fed gyda Mynediad am Ddim, ac hefyd yn Eisteddfod yr Urdd ym mis Mehefin.

Hefyd yr haf nesaf bydd ail lyfr Ieu (Ieuan Rhys) yn cael ei gyhoeddi gan Wasg y Lolfa - JOIO MAS DRAW. Yn y llyfr yma hefyd, cewch weld dawn Hef fel cartwnydd; tri cartŵn lle mae Dr. Ieu yn cwrdd â Bruce Forsyth, Terry Wogan ac Eric Morecombe.

Gyda llaw, os ydych yn bwriadu trefnu noson, cysylltwch â Ieu naill ai trwy lythyr i
104, Donald St.,
Y Rhath,
Caerdydd.
neu drwy ffonio
Caerdydd 499947

M.W.Tomos

Llun - John Smith



# Y SILFF LYFRAU

Siân Edwards, W.J.Jones, Medwen Roberts, Cen Williams, AMBAREL, Gwasg Cambria, £2.50
W.J. Jones (gol.) CYFRES ENWOGION Y BYD 1-3, Gwasg Cambria, £2.00 yr un neu £5.00 am set o'r tair cyfrol.

---

Dyma bedair cyfrol â chysylltiadau lleol amlwg. Math ar lyfr anrheg yw AMBAREL. Y tu mewn i'r clawr lliwgar, deniadol, cyflwynir nifer o themâu: chwaraeon, Gwlad Groeg, y syrcas, sŵn a sain, y gofod, anturio o dan y ddaear, y môr ac ofergoelion. Cyflwynir y themâu hyn ar ffurf posau, storiau, erthyglau,pethau i'w gwneud a storiau stribed.

Ceir yma nifer o eitemau diddorol iawn, megis hanes theatr y Groegiaid, stori am Grimaldi, gwybodaeth am y technegau sydd ar gael yn y stiwdio recordio, hanes y pelydryn laser, stori Dryllwyr Dwn-rhefn a hanes Mordaith Brendan. Mae'r lluniau, hefyd, yn ddigon difyr, yn arbennig yr un a geir ar waelod tudalen 87. Yr hen fochyn druan! Trueni, braidd, fod yr awduron wedi cynnwys cyfeiriadau cwbl gyfoes at y Trwynau Coch, er enghraifft, a thîm peldroed llwyddiannus Abertawe. Hen hanes yw'r rhain bellach.

Croeso, hefyd, i dair cyfrol gyntaf CYFRES ENWOGION Y BYD, 'Darganfyddwyr ar Dir' yw teitl y gyfrol gyntaf.

Yn y llyfr hwn, fel y gweddill yn y gyfres, ceir rhyw ugain o gyfraniadau, rhai o waith y golygydd ei hun, digonedd o fapiau a lluniau, ac un lliw - mae'r lliw yn amrywio o gyfrol i gyfrol.

Mae'r ail gyfrol yn ymdrin â 'Darganfyddwyr Môr ac Awyr' ac yn y drydedd gyfrol, y gyfrol orau hyd yn hyn, trafodir 'Dyfeiswyr Enwog'. Anffodus yw tuedd rhai o'r cyfranwyr i bentyrru ffeithiau a bodloni ar hynny ond at ei gilydd llwyddodd y golygydd i gasglu ynghyd dîm hynod ddawnus. Mae'r golygydd ei hun wedi cyfrannu nifer o erthyglau campus i'r drydedd gyfrol a bydd enwau Dr. Urien Wiliam a Dr. Geraint Jenkins yn gwbl gyfarwydd i ddarllenwyr Y Dinesydd. Rwy'n siwr, fodd bynnag, na fyddai neb yn gwarafun imi dynnu sylw arbennig at gyfraniadau y diweddar Beti Hughes i'r gyfrol gyntaf. Dyma batrwm o ysgrifennu ffeithiol dychmygus, ganre anodd iawn. Wrth ddarllen ei herthyglau ar Mungo Park, David Livingstone a Henry Morton Stanley sylweddolwn mor fawr a fu ein colled.

Philip Wyn Jones.

Alan Llwyd, MAWRNAD O DIRDEUNAW, Cyhoeddiadau Barddas. £1.50
Arfon Williams (gol.) YNGLYN A CHREFFT ENGLYNA Cyhoeddiadau Barddas, £1.75
Robin Gwyndaf, TEULU NEST AR FFERM YNG NGHYMRU, Corbett, £2.95, CBAC

---

Dawn, crefft, egni a hyder sy'n nodweddu'r tair cyfrol yma - cyfrolau gan awduron profiadol a phob un yn arbenigwr yn ei faes. Pleser oedd cael fy ngorfodi i'w darllen pan ofynnwyd imi am adolygiad er na fyddwn yn argymell darllenwyr Y Dinesydd i aros am wahoddiad i'w hadolygu cyn sicrhau copi o'r tair cyfrol.

Cyfrol mewn angerdd yw MARWNAD O DIRDEUNAW gan Alan Llwyd. Er bod cerddi eraill ynddi, marwnad i'w fodryb drwy briodas yw'r brif gerdd a symbyliad y gyfrol. Cawn amgylchiadau ysgrifennu'r gerdd yn rhagair yr awdur er mai prin fod angen unrhyw esboniad ar gryfder yr emosiwn a'i gyrrodd i ysgrifennu'r gerdd. Mae hynny'n amlwg ymhob llinell bron. Mae'r awdur yn credu mai'r cerddi hyn yw ei waith gorau hyd yma. Mi fyddwn mor hy' ag awgrymu ei fod, efallai, yn rhy agos at y profiad i farnu hynny. Mi awn ymhellach a phroffwydo y bydd beirniaid y dyfodol, ac efallai Alan yn eu plith, yn teimlo bod rhai delweddau (e.e. angau'r medelwr a'r cynaeafwr) yn ystrydebol o'i gymharu â'i gyfrol ddiwethaf. Wedi dweud hyn nid oes amheuaeth fod y gerdd yn taro tant i unrhyw un a gafodd brofiad cyffelyb a bod gwerth arbennig i gyhoeddi ac i ddarllen y gyfrol.

Diolch eto i Gyhoeddiadau Barddas am roi inni'r ail gyfrol, YNGLYN A CHREFFT ENGLYNA. Allwn ni ddim meddwl am neb mwy addas nag Arfon i gasglu profiadau englynwyr a rhoi golwg y tu ôl i'r llenni ar weithdai'r arwyr. Mae hon yn gyfrol y gellir ei darllen a'i mwynhau ar un darlleniad ac yn werthfawr wedyn fel llawlyfr i bori ynddo er dyfnhau'r mwynhâd. "Bwriedir y cyfan fel rhyw fath o deyrnged" meddai Arfon yn ei Ragair, "i'r cyfrwng rhyfeddol hwn a gawsom i'n dwylo". Heb os, fe wnaeth hynny, a mwy. Dangosodd i'r byd fod celfyddyd cynghanedd ac awen y bardd Cymraeg yn dal yn fyw ac yn iach yng Nghymru'r wythdegau ac yn byw'n gysurus iawn mewn pedair llinell fach dwt.

Llyfr go wahanol sydd gan Robin Gwyndaf er bod hwn hefyd yn dangos bwrlwm bywyd. Yr hyn sy'n ddiddorol yw bod y llyfr wedi ymddangos yn Saesneg cyn iddo gyrraedd y silffoedd yn Gymraeg. Nid beirniadaeth ar yr awdur mo hynny ond sylwi ein bod yn barod i fychanu yr hyn sy'n perthyn inni yn rhy aml pan fo'r estron yn gweld y gwerth. Mae hon yn gyfrol sy'n goresgyn amser - lluniau da a sylwebaeth syml - sleisen o fywyd cefn gwlad rhwng cloriau llyfr sy'n werth ei gael ar unrhyw silff lyfrau.

Euryn Ogwen Williams

---

ANAFU PROTESTWRAIG O GAERDYDD.

------

Ymhlith y criw diweddaraf o fenywod a garcharwyd o ganlyniad i brotest yn Greenham, mae menyw o Gaerdydd, sef Carol Harwood o Radur. Anafwyd Carol ar y ffordd i'r carchar, a threuliodd gyfnod yn ysbyty Carchar Holloway. Mae'n dda clywed ei bod bellach wedi gwella ac wedi gadael yr adain ysbyty (ond mae'n dal yn y carchar wrth gwrs). Gobeithio y gallwn gyhoeddi cyfweliad â Carol yn rhifyn nesaf Y Dinesydd.

# O'R SEDD GEFN

GANDHI

Nid yn aml mae ffilm fawr - ffilm o bwys mawr - yn cael ei rhyddhau, ond yn ddiweddar fy ymddangosodd ffilm a oedd nid yn unig yn fawr o ran maint ond yn fawr o ran ei chynnwys hefyd. Y ffilm yw GANDHI gan Richard Attenboro ac mae'n ffilm anghyffredin ac arwyddocaol iawn, yn enwedig i ni'r Cymry.

Fel y disgwylir, hanes y gŵr a gafodd ei alw'n dad yr India newydd a geir yma. Y gŵr hwnnw a oedd mor ddiymhongar ac mor fach o ran corff, ond gŵr a heriodd holl rwysg a holl nerth yr Ymerodraeth Brydeinig a oedd ar y pryd yn ei hanterth ledled y byd -- ac ennill!

Mae'r ffilm hon wedi bod yn yr arfaeth ers rhyw ugain mlynedd ac yn ystod y cyfnod hir yma bu Richard Attenboro yn ymchwilio ac yn paratoi ar gyfer y gwaith anferth. Heb sôn am y ffilmio a'r cyfarwyddo, y codi arian a phopeth arall, treuliodd flynyddoedd lawer yn ceisio dod o hyd i actor a oedd yn ymdebygu i Gandhi o ran pryd a gwedd ac a fyddai'n medru gwneud cyfiawnder â'r dyn yntau. Ar ôl chwilio'n ddyfal dyma fe'n dewis Ben Kingsley, dyn nad oedd fawr neb wedi clywed sôn amdano ym myd y ffilmiau, ond eto roedd yn actor llwyfan rhagorol, ac roedd o dras Indiaidd. Pwy'n well felly? Ond yn ogystal â Kingsley dyma Attenboro yn casglu ynghyd rai o'r actorion disgleiriaf yn y busnes, pobl megis Candice Bergen, Edward Fox, John Gielgud, Trevor Howard a John Mills i enwi ond rhai. Ac i sicrhau cefnogaeth ariannol i'r ffilm, bu Attenboro yn ymwneud â llywodraethau, byrddau ffilmiau a chwmniau cyllid ac yn ystod yr ugain mlynedd y bu wrthi byddai'n gweithio ar ffilmiau eraill yn unswydd i godi arian ar gyfer y ffilm a oedd mor annwyl ganddo ac mor bwysig - Gandhi.

Yn syndod i rai pobl efallai egyr y stori yn Neheudir Affrica lle mae'r Gandhi ifanc wedi mynd yn gyfreithiwr. Yno daw'n amlwg, yn wir daw'n arweinydd y frwydr yn erbyn gormes y bobl wyn yn erbyn y duon a'r bobl o dras Asiaidd. Ar ôl cael ei garcharu a'i gamdrin yn ddidrugaredd mae Gandhi'n penderfynu dychwelyd i India i geisio rhyddhau ei bobl ei hun rhag llywodraeth y Raj - y Prydeinwyr. Yn fuan iawn ar ôl cyrraedd India dyma fe'n mynd ati i gynnal cyfarfodydd, cynadleddau ac ymgyrchoedd yn erbyn llywodraeth yr estroniaid, ond trwy gydol y cwbl mae e'n mynnu gweithredu dulliau di-drais i ennill ei nod, a hynny yn wyneb gwrthwynebiad chwyrn ar adegau gan ei bobl ei hun, ac yn erbyn trais diamheuol y Prydeinwyr. Ond unwaith yn rhagor er iddo gael ei garcharu droeon a'i guro mae'n llwyddo i gadw ei urddas a'i ryddid - a dyna'n bennaf sy'n torri ysbryd y Prydeinwyr ac sy'n llacio'u gafael. Am y tro cyntaf mae pobl sy mor gyfarwydd â defnyddio trais a grym i ymestyn ffiniau eu hymerodraeth yn cael eu herio gan ddyn heddychlon ac ni wyddant beth i'w wneud. Ar ôl cyfres o ymgyrchoedd megis y daith gerdded hir i'r môr i gynhyrchu halen, ac yn ei sgîl dorri'r gyfraith, mae Gandhi yn llwyddo i ennill rhyddid i'w wlad.

Mae GANDHI yn ffilm hanfodol bwysig i ni'r Cymry ac i bawb sy'n ymboeni ynghylch heddwch y byd. Byddwn i'n eich annog i ruthro i'w gweld hi. Fe wnaiff eich synnu a hyd yn oed godi braw arnoch mewn mannau, cymaint felly yw ei nerth - ond yn sicr fe wnaiff hoelio eich sylw o'r dechrau hyd y diwedd. Gyda thymor yr Oscars yn prysur agosau mae'n siwr o ennill llu o wobrau, ond fel y dywedodd Attenboro yntau, y wobr orau a enillodd y ffilm hyd yma oedd gwobr heddwch Martin Luther King, oherwydd dyna destun y ffilm GANDHI - heddwch.

Ioan Kidd.

## BYD Y BOL

I gydfynd ag ymddangosiad y ffilm fawreddog a adolygir gan Ioan Kidd ar y chwith, rydym y mis hwn yn dathlu agor y tŷ bwyta Indiaidd newydd a gymerodd ugain mlynedd cyn cael ei agor. Pleser gennym gefnogi yr ATTENBORO yn Cwmdelhi Street, Cathays. Fe'i agorwyd yn swyddogol gan Emir Curry.

Gallwn eich sicrhau fod croeso cynnes (hynod o gynnes) yn y gwesty hwn. Mae croeso arbennig o gynnes ar fryniau Kasha - Kasha yw'r weinyddes hawddgar a ddaw a'r Garsalam atoch. Mae hi'n kaur o ferch!

Pan aethom ni yno fel teulu, - y fi a Taid Assam (a Hef ac Ieu), cawsom anhap anffodus. Bu'n rhaid i Taid godi ar fad ras gan weiddi "Mae'n rhaid imi vindaloo. Tibet a ddof i o hyd iddo". Yn anffodus, fe fethodd a bu papa dom.

Bu rhaid i finne druan fynd i glirio llanast fy nhaid gyda Khybar rhaw. Ond ys dywed yr hen air Hindwaidd

"Os Ghandhi bennill fwyn
i'th Tahid
Fe Gandhi'th daid i tithau".

Mynnodd Kasha ein bod yn gadael ar frys. "Bangladeshwch hi oddi yma!" oedd ei hunion eiriau.

O! Wel! Rhaid oedd talu.

"Dim ond Cashmere, man!" mynnodd y rheolwr, pan gynigiodd Taid ei Barclay Card.

"Ceylon", medden ninnau. (Sri Lanka i'r rhai hyddysg ohonoch).

Ben Avez.



CANOLFAN GYMRAEG GLANTAF

Llwyddiant pendant fu hanes y Ganolfan y tymor hwn. Fe'i mynychir gan rhyw dri chant, pedwar deg o aelodau, gan gynnwys tua chant sy'n defnyddio'r adeilad yn unig. Mae dros ugain o bobl yn dod i'r Dosbarth Dysgwyr Cymraeg, y flwyddyn gyntaf ar nos Lun, a rhif tebyg yn mynychu'r dosbarth 'Hyfforddi athrawon meithrin'ar nos Fercher. Dysgir unarddeg dosbarth arall drwy gyfrwng y Gymraeg, un dosbarth teipio yn ddwyieithog, a thri dosbarth drwy gyfrwng y Saesneg.

Fe gynhelir un dosbarth Cymraeg i ddysgwyr ar brynhawn Mawrth rhwng 1.15 a 3.15 p.m. Mae'r dosbarth yma'n addas iawn i famau sy am ddysgu'r iaith. Hefyd mae dosbarth o unarddeg yn astudio cwrs Lefel A Cymraeg i ddysgwyr yn y ganolfan.

Ar nos Lun a nos Fercher ceir egwyl rhwng 8 ag 8.20 p.m. pan gasgla'r mwyafrif o'r myfyrwyr yn y ffreutur i sgwrsio ag yfed te neu goffi. Dyma gyfle ardderchog i unrhyw un a fyddai a diddordeb, gynnal arddangosfa neu arwerthiant bach o lyfrau, recordiau neu unrhyw nwyddau'n ymwneud â'r bywyd Cymreig. Mae yna groeso mawr hefyd i gymdeithasau ddefnyddio'r ganolfan i gynnal cyfarfodydd neu bwyllgorau.

Fe fydd y tymor nesa'n dechrau ar Ionawr 10fed. Beth am ymuno â ni yng Nghanolfan Gymraeg Glan-taf?

Yvonne Morgan,
Dirprwy Bennaeth.

'ROL GWELD DR SHADY
A 'TWYLLO'R TEULU'
MAN A MAN IFI FYND 'NOL I GANU!



# FFARWELIO Â DAFYDD

Caerdydd oedd man cychwyn y llwyddiant mawr cenedlaethol a ddaeth i ran Dafydd Iwan fel canwr. Tra roedd yma yn fyfyriwr y cafodd ei gyfle cyntaf ar deledu cenedlaethol, gyda'i ymddangosiadau wythnosol ar Y Dydd.

Bellach, cyhoeddodd ei 'ymddeoliad'. A daw ei daith genedlaethol olaf i ben yma yng Nghaerdydd. Cymaint fu'r galw am docynnau, trefnwyd sioe ychwanegol am 4 o'r gloch y prynhawn. Yn y Sherman y cynhelir y ddau berfformiad hanesyddol hyn. Byddant yn cloi cylch o ugain mlynedd ddisglair. I nodi rhan y brifddinas yn natblygiad y gweledydd a'r diddanwr hwn, mae gennym gystadleuaeth arbennig y mis hwn.

Y cyfan sydd ei angen yw datrys y posau isod a defnyddio llythyren gyntaf pob ateb i ddarganfod cysylltiad arall â Dafydd Iwan.

Gwobr - Tocyn Taflen Gwerth £5.

Anfoner eich atebion at:
Cen Williams,
19 Dogfield St.,
Cathays,
Caerdydd.




1. Pentre John Jones -- a'r ciosg bygiedig(8)
2. Delw'r dydd gwyn y gwelodd Dafydd -- y gân wedi'i thraws-gyweirio (4,5,1,3)
3. Cyfaill D.I. - o'r De draw a Llandegfan (6)
4. Gwersi'r Cownti Sgŵl (6)
5. Yr ôd sy'n od i ffŵl (4
6. Oed pensiwn mamgu (6,4)




# TAITH MACSEN

# THEATR SHERMAN

Coleg y Brifysgol, Caerdydd.

**Sul, 27 Mawrth, 4.00pm.**

Tocynnau: £3.50, gostingiadau **£2·50**

**Syddfa Docynnau: Caerdydd (0222) 30451**

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru ac i'r Swyddfa Gymreig am eu cefnogaeth ariannol at gostau'r Dinesydd.

-------

# COLOFN
## Shân Emlyn

Mae'n rhaid gen i fy mod yn mynd trwy gyfnod hesb o syniadau. Lol botas maip oedd yn y golofn hon y mis diwetha a digon difflach ydio'r mis yma eto. "Gwnewch y pethau bychain" fydd byrdwn degau o wŷr a gwragedd gwadd ledled Cymru a thros Glawdd Offa yn ystod y dyddiau nesa 'ma. Tydwi ddim am ildio i'r demtasiwn o ddilyn y trywydd yna a wnai ddim sôn am Ddewi Sant. Ond mae 'na rai "pethau bychain" ymarferol sy'n gas gen i eu gwneud.

Dwi wrth fy modd efo fy nghontinental cwilt King Size gan mai un o'm cas bethau am flynyddoedd oedd gwneud y gwely. Ond pan ddaw hi'n adeg golchi gorchudd y cwilt, wel, mater bach iawn yw ei olchi a'i sychu. Ond, och, ei roi yn ôl! Yr unig ffordd y gallaf ddisgrifio'r perfformans ydy i chi ddychmygu pabell y Cymdeithasau yn disgyn am eich pen. Mi fyddai o'r golwg yn y gorchudd yn ceisio dod o hyd i bedair cornel y cwilt, a tydy 'mreichiau i ddim digon hir i ymestyn o gornel i gornel. Mae'r orchwyl hon yn fy ngadael wedi ymlâdd!

Un o'r "pethau bychain" arall sy'n gas gen i ydy mynd i'r dre. Mae fy myd bach i yn gorffen wrth oleuadau Wellfield Road, ond o dro i dro fe ddaw hi'n rheidrwydd arnai i fynd i Marks neu Howells. Wn i ddim yda chi'n cael yr un profiad â mi, bob tro yr af i'r dre? Mae'r torfeydd fel petaent yn meddwl fy mod yn anweledig. Pobol yn gadael i ddrysau gau yn glep yn ry wyneb fel y byddai'n ceisio mynd i mewn i siop, a finna wedyn yn treulio munudau yn dal y drws i resi o bobol ddiddiolch y tu ôl i mi. Pob copa walltog yn Marks o dan fy nhraed a finna'n barhaus yn gwthio yn erbyn y lli. Ar adeg fel hyn profiad anifyr yw cael cipolwg arnaf fy hun mewn ambell ddrych a golwg flin ferthyrol ar fy wyneb!

Pam medda chi y mae cynifer o siopau yn newid eu stondinau, gwneud bî lein am stondin tights a darganfod mai trowsus sydd yno a'r tights wedi symud i ben arall y siop. Mae'n rhaid gen i fy mod yn mynd yn debycach i fy mam bob dydd. Nid ai hi i siopa o un pen i'r flwyddyn i'r llall - bwyd - ordor wythnosol yn y coparet, dillad - fi yn nôl rhai "ar apro" - neu ddibynnu ar gatalog J.D. Faint ohonoch sy'n cofio hwnnw tybed?

Ia wir, Gwnewch y pethau bychain - rheiny sy'n drafferthus yn amal!

---

MENYWOD DROS FYWYD AR Y DDAEAR.

---------

Mae menywod Cymru wedi chwarae rhan amlwg yn adfywiad y Mudiad Heddwch yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn enwedig drwy gyfrwng Menywod dros Fywyd ar y Ddaear. O Gaerdydd y cychwynnodd yr ymdaith hanesyddol i Gomin Greenham yn haf 1981; sefydlwyd Gwersyll Heddwch yno sydd wedi tyfu'n ganolbwynt protestiadau a gweithredoedd torfol anferth gan fenywod o bob cefndir, dosbarth a chred, o lawer gwlad.

Trefnodd nifer o aelodau Menywod dros Fywyd ar y Ddaear orymdaith o Gaerdydd i Orsaf y Llynges Americanaidd ym Mreudeth yr haf diwetha, a cherddodd rhyw drigain o fenywod a phlant y can milltir yno, er gwaetha'r gwres tanbaid. Bu'r menywod yn weithgar iawn yng Nghaerdydd er hynny, gan ganolbwyntio eu hymdrechion yn erbyn Ffatri Frenhinol Llanishen, Caerdydd. Bu'r menywod yn picedu'r ffatri bob bore Gwener er mis Tachwedd diwethaf ac ar ddechrau mis Chwefror, trefnwyd gwylnos 24 awr y dydd am saith diwrnod y tu allan i'r clwydi, i dynnu sylw trigolion lleol Llanishen a'r cylch at y perygl hwn yn eu mysg.

Am wybodaeth bellach, ffoniwch Jane (Caerdydd 614127), Liz (566548) neu Margery (753961).


CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU



Ar Agor
10.00— 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530





BOB ROBERTS.


COFIWCH WRANDO!
RADIO CYMRU 12-15 a.m.
DYDD IAU, MAWRTH 10
EITEM 'Y DINESYDD'
YNG NGHYSTADLEUAETH
PAPURAU BRO

THEATR CARICATURE
WIL AC ELIN A NI
THEATR SHERMAN
COLEG Y BRIFYSGOL
CAERDYDD
17 - 19 Mawrth 1983
Gwener 10.30a.m. Sadwrn 11.00a.m.

# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Rwy'n falch iawn o gael cyhoeddi'r mis hwn beth o waith y Parch Glyndwr Richards, Rhiwbeina. Mae'n cael hwyl fawr ar gystadlu mewn eisteddfodau ledled Cymru. Efô a enillodd gadair Bro Myrddin ychydig yn ôl, a bu'n fuddugol hefyd yn Eisteddfod Llanfair Caereinion wrth lunio emyn o weddi. Dyma'r emyn hyfryd a ganol y pryd hwnnw:

EMYN (Mesur 7676D)

Trugaredd dyro imi
 Yn fuan, Arglwydd Dduw,
Glanhâ fi'n llwyr o'm beiau,
 Anwiredd o bob rhyw.
Fy mhechod a gyffesaf
 O'th flaen di, Farnwr da,
Fy hen arferion afiach
 A'm dilyn fel y pla.

Yn gynnar iawn gwrthgiliais,
 A throchais ifanc nwyf;
Ac afiach yw fy natur,
 O'r groth pechadur wyf.
Ond golch fi 'nawr, fy Arglwydd,
 Er dued yw fy nhras,
A byddaf fel yr eira,
 Yn wynnach trwy dy ras.

Y galon lân rho ynof,
 A'r ysbryd iawn i mi,
A byddaf yn ddiogel:
 Dy ofal sanctaidd Di
A'm ceidw'n agos ataf,
 Yn gynnes yn dy gôl:
O cynnal fi â'th ysbryd
 Rhag imi syrthio'n ôl.

Gwell gennyt aberth moliant
 Na phoeth offrymau lu:
O agor fy ngwefusau;
 Mi dystiaf ar bob tu.
Gorfoledd iachawdwriaeth
 Fydd testun gwiw fy nghân,
Canmolaf Geidwad grasol
 Yng ngwynfa Seion lân.

Glyndwr Richards

Yn yr un eisteddfod cafodd y wobr am yr englyn, ac yn sicr cafodd olwg newydd ar y testun:

TALWRN

Eto af i ffrynt y tŷ - lleoliad
 Holl olud yr Hendy;
Yma mae gardd fy mam-gu,
Hen dalwrn annwyl deulu.

Glyndwr Richards

Hoffwn gloi'r golofn y tro hwn gydag englyn a gefais gan yr hynafgwr annwyl Llywelyn Morgan. Byddaf yn cael y fraint o roi pas iddo ambell nos Sul o'r capel, ac o dro i dro bydd yn gwthio darn bach o bapur i'm llaw. Felly'r tro hwn:

YSGYFARNOG

Tra yr erys tro yr eira, - yr ôl
 Dan draed a'i bradycha;
Ond mewn hedd y gorwedda
Ar werdd ddôl ar hirddydd ha'.

Llywelyn Morgan

Cofiwch anfon eich gwaith ataf. Y cyfeiriad, fel o'r blaen, yw 'Penmaen', 31, Heol Don, Yr Eglwysnewydd, Caerdydd.

DIM LLETY A CHROESO

Siomedig iawn fu'r ymateb i'r cyfarfod a drefnwyd ar 23 Chwefror, i ffurfio Pwyllgor Llety a Chroeso Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd a'r Cylch 1985.

Apelir felly ar i unrhyw un (merched neu ddynion) sy'n barod i weithio ar y Pwyllgor hwn i ddod i gyfarfod a gynhelir ar NOS FAWRTH, 19 EBRILL, yn YSGOL GLANTAF, am 7.30 o'r gloch.

Am fanylion pellach, cysyllter â'r Ysgrifennydd, Mrs. N. Couch, 2 Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd (753625).

Pytiau

Y Parchedig Glyn Parry Jones.

Yn ystod y mis diwetha bu farw'r Parchedig Glyn Parry Jones. Bydd llawer o'r darllenwyr yn cofio am ei lais soniarus ar y Radio am flynyddoedd. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn eu hiraeth a'u colled.

-----


Dymunwn adferiad buan a llwyr i Marion Eames ar ôl cael llaw driniaeth yn ddiweddar.

-----

Blin gan Y Dinesydd gofnodi marwolaeth Mr. Michael Roberts, yr Aelod Seneddol dros ogledd-orllewin Caerdydd, ac Is-Ysgrifennydd dros Gymru yn y Swyddfa Gymreig. Bu yn athro yn ysgolion uwchradd Fitzalan a Cathays ac yn brifathro ar Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf cyn ei ethol i'r Senedd.



# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 31



## Ar Draws

1. Cyfaddefaist y bu adyn anystywallt yn rhannu cost (10)
8. Y nerth cyffrous a ddaw o fwyta garlleg, nionod a sibwns (4)
10. Meddygon mewn cynnwrf y yn dilyn yr adlais at y gŵr sy'n awdurdod ar gyfoeth a ffyniant y wlad (10)
11. Da (4)
13. Yr un fel (7)
15. Arf y medelwr cyntefig sy'n gwneud marcyn dilun(6)
16. Sgwrs dreigledig a glywir yn y coleg (6)
17. Llif-barablu yn debyg i gyfreithiwr -- "A welaist Dan ar fir yn feddw?"(6,3,6)
18. Troi fel y galchen (6)
20. Ychydig o stumog am ddim (6)
21. Rhan o 20 yn llawn (7)
22. Tyllwr (4)
25. Nerfusrwydd y nos. "Llwch! wyt ynof yn corddi" (3,7)
26. Un o feibion Iacob, a brawd i Ioseff (4)
27. O'r wlad a'r pentrefi y daw moddion cynhaliaeth ac --- -'- ----- (3,1'1,5)

## I Lawr

2. Llymeitian? (4)
3. Nwy y goleuadau coch(4)
4. Un o ragolygon y cnwd(6)
5. Diofalwch "y gwyliwr ar y tŵr" (4,11)
6. Daw'r ci o hyd iddo wrth ddilyn ei drwyn (6)
7. Fe ddaru ti ddatguddio(10)
9. "Gan yr Iddewon bumwaith y derbyniais ddeugain ---------- ond un" (St.Paul at y Corinthiaid, nid y cyfieithiad newydd) (10)
12. Cyffesiad! "Fe fydda' i a D.C. ar grwydr" (10)
13. Pum sgôr o fylchau y gellir eu pyncio (7)
14. Rhyw fân-uchelwr -- gyda gwn a bir y mae'n troi (7)
15. Fe fyddai caseg redeg yn sanctaidd, petai hi'n llafar iawn! (10)
19. Ofnais y llednant wyllt (6)
20. Deuaf at ddynion sy'n medru hyfforddi a llarieiddio (6)
23. Lle'r aberth mewn rhan arall o'r deml (4)
24. Hyn o bwynt yw'r cleimacs (4)


**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD 561788**



Theatr Cymru

# TŶ AR Y TYWOD

gan Gwenlyn Parry

Cynhyrchiad newydd, trawiadol o'r ddrama gref ac adnabyddus



THEATR SHERMAN
Coleg y Brifysgol Caerdydd, Heol Senghennydd

Mawrth-Mercher, 22-23 MAWRTH. 7.30
Tocynnau: £3.30, gostyngiadau i £2.80
hefyd Mercher 1.30. Pob tocyn £2.00

Swyddfa Docynnau: CAERDYDD 30451


penwythnos lwyddiannus - successful weekend

amrywiol ddosbarthiadau - a variety of classes

mynychu - attend

rhyfeddol o rad - exceedingly cheap

cystadleuthau - competitions

de-ddwyrain - South East


CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU




Ar Agor
10.00 – 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530




Argraffwyd gan Fingerprints(TU), Caerdydd. FP306